

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Ceredigion

Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Ceredigion i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Roedd Ceredigion wedi cyflawni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, wedi rhannol gyflawni 1, ac wedi methu â chyflawni 1.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Ceredigion wedi cyflawni 9 yn llawn, ac 1 yn rhannol.

Mae rhai meysydd wedi gwella yng ngwasanaeth llyfrgell Ceredigion yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, er y gostyngiad yng nghyfanswm ei gyllideb refeniw. Cafwyd datblygiad amlwg mewn meysydd allweddol, a bydd yr adolygiad arfaethedig ar strategaeth a pholisi yn gallu adeiladu ar y datblygiadau hyn; bydd cynlluniau i gwblhau ei arolygon defnyddwyr yn ystod gweddill y fframwaith yn rhoi tystiolaeth ychwanegol i'r broses hon. Fodd bynnag, mae effaith cyfyngiadau ariannol a staffio yn dal i fod yn amlwg, ac mae yna eisoes arwyddion y gallai'r gofyniad i gael arbedion ychwanegol effeithio ar berfformiad yn y dyfodol, ac effeithio ar allu'r gwasanaeth i atgyfnerthu ac adeiladu ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni yn 2017-18.

- Mae'r holl brif fannau gwasanaeth nawr yn cynnig ystod lawn y gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda ar gyfer iechyd a lles. Mae dwy astudiaeth achos yn dangos effaith fuddiol y gwasanaeth.
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi cynyddu'n fawr, er y gellid gwneud mwy i gyrraedd perfformiad lefel y canolrif ar gyfer Cymru.
- Mae cynnydd yn nifer yr ymweliadau a benthycwyr gweithredol yn adlewyrchu llwyddiant ymgyrch denu aelodau ym mis Hydref 2017, ac mae'n effeithio'n gadarnhaol ar fenthyciadau llyfrau, gan fynd i'r afael â chwymp yn y ffigyrau.
- Lliniarwyd gostyngiadau pellach i'r gyllideb deunyddiau trwy fynd ati'n ofalus i gynllunio a chaffael e-adnoddau; mae'r gwasanaeth yn parhau i berfformio'n dda mewn perthynas â'r ddarpariaeth Gymraeg.
- Mae defnydd da yn dal i fod ar y cyfleusterau TGCh, ac mae'r gwasanaeth yn bwriadu uwchraddio ei ddarpariaeth ar-lein drwy wefan newydd a gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae lefelau staff cyffredinol yn parhau i fod yn isel, ond mae'r gwasanaeth yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer staff cymwysedig, ac mae wedi dechrau defnyddio gwirfoddolwyr i gefnogi datblygu'r gwasanaeth.
- Cafwyd cynnydd bychan yng nghyfanswm yr oriau agor, ac mae'r hyn y mae Ceredigion yn ei gynnig yn y cyswllt hwn yn parhau i fod ymhlith y gorau yng Nghymru.
- Mae cyfyngiadau ar adnoddau yn parhau i fod yn her i'r gwasanaeth; mae'r adolygiad cyfredol ar strategaeth a pholisi'r gwasanaeth yn cynnig y cyfle i adeiladu ar y

cyflawniadau cadarnhaol eleni, ond bydd y cynnydd wedi'i gyfyngu os bydd gofyn cael arbedion pellach yn y gyllideb.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

2.1 Hawliau craidd

Mae Ceredigion yn cyflawni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, yn rhannol gyflawni 1, ac yn methu â chyflawni hawl graidd 11 yn ymwneud ag ymgynghori â'i ddefnyddwyr. Nodir bod hawl graidd 10 yn faes gwendid, sef gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a chynnig gwasanaethau, ond bod cynlluniau ar y gweill ar gyfer gwella'r ddarpariaeth ar-lein, ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn benodol. Mae'r sefyllfa o ran ymgynghori â ddefnyddwyr bellach wedi para ers cryn amser, ond nodir bod y gwasanaeth yn bwriadu cynnal arolwg o'i ddefnyddwyr oedolion yn 2018/19.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Ceredigion yn cyflawni 9 yn llawn, ac un yn rhannol.

Dangosydd perfformiad	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:	Cyflawni'n llawn	
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles	Cyflawni'n llawn	
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol	Cyflawni'n llawn	
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	✓	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau Cymraeg	Cyflawni'n llawn	
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	✓	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	x	

Dangosydd perfformiad	Cyflawni?	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	✓	
iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Mae rhywfaint o welliant ers blwyddyn olaf y pumed fframwaith ar gyfer y dangosyddion perfformiad hynny y mae modd eu cymharu'n uniongyrchol – gyda DA 3 a DA 9 ill dau yn cael eu cyflawni'n llawn erbyn hyn.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Dywedodd Ceredigion y caiff ei arolygon defnyddwyr eu cynnal yn 2018/19 (oedolion) ac yn 2019/20 (plant). Nid oedd y gwasanaeth ychwaith wedi gallu cyflwyno ffigyrau pendant yn ymwneud â gwerthusiad defnyddwyr o'i arlwy hyfforddiant yn 2017-18; mae mecanwaith adborth priodol i'w weithredu yn 2018/19.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth				
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	<i>amherthnasol</i>	73%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	<i>amherthnasol</i>	38%	90%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	<i>amherthnasol</i>	75%	98%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Ceredigion ddwy astudiaeth achos o'r fath:

- Mynediad TG – mynediad i gyfleusterau TG a staff gwybodus sy'n cefnogi unigolyn i gwblhau cyrsiau ar-lein a chael gwaith cyflogedig; gan ddangos pwysigrwydd

cyfleusterau TG da a gwasanaethau sydd â staff ynddynt, yn enwedig mewn cymuned wledig.

- Ffoaduriaid o Syria – mae'r llyfrgell yn cynnig lle diogel i ffoaduriaid gwrdd â sefydliadau cefnogi a chael gwersi iaith. Mae llawer hefyd wedi ymuno â'r llyfrgell i'w cefnogi ymhellach wrth ddysgu Saesneg. Mae casgliad mewn Arabeg wedi'i gynllunio (drwy roddion llyfrau oedolion a phlant), a bydd hwn ar gael ledled Cymru ar gais.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Ceredigion ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
DA 1 Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd:	amherthnasol		24%	83%	94%	
c) iechyd a lles	amherthnasol		33%	65%	95%	
d) lle diogel a chroesawgar	amherthnasol		90%	98%	100%	
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	amherthnasol		88%	91%	98%	
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	amherthnasol		93%	99%	100%	
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	amherthnasol		74%	86%	94%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	amherthnasol		93%	97%	99%	
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	amherthnasol		8.5	9.1	9.2	
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr fesul pen	32	12/22	10	32	238	31
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	136	14/22	15	199	473	138
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth	91	21/22	82	228	684	62
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	4,028	12/22	2,501	4,047	7,014	3,908
b) rhith-ymweliadau fesul pen	317	20/22	243	866	2,211	amherthnasol
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	158	9/22	100	154	229	139
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen *	441	2/22	4	68	663	
DA 11 Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul pen [^]	7	19/22	5	9	14	7
c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	50%	4/22	14%	27%	67%	63%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau						

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	25	14/21	3	31	196	0
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	40	21/21	40	1,346	11,939	0
DA 14 Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£10,183	15/21	£7,047	£11,915	£17,771	£13,388
b) % ar staff	66%	9/21	44%	63%	75%	50%
% ar adnoddau gwybodaeth	16%	4/21	4%	13%	25%	14%
% ar offer ac adeiladau	6%	7/21	0%	4%	20%	7%
% ar gostau gweithredol eraill;	12%	16/21	0%	18%	37%	29%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£1,331	5/20	£0	£338	£17,432	£0
DA 15 Cost net am bob ymweliad	£1.85	10/21	£1.24	£1.82	£2.41	amherthnasol
DA 16 Oriau agor [#]						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.41%	16/21	0.00%	0.02%	1.28%	0.33%
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	11.24%	20/20	0.00%	0.35%	11.24%	8.33%

* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

^ am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw Ceredigion eto wedi cynnal ei arolygon defnyddwyr, ac ni chafodd y rhain eu cwblhau o gwbl ychwaith yn ystod y pumed fframwaith. Nodir bod y rhain i fod i gael eu cynnal yn 2018-19 a 2019-20, ac y caiff y gofyniad hwn ei gyflawni yn y fframwaith presennol. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog sydd ar agor am 10 awr neu fwy bellach yn cynnig yr ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, ac mae iechyd a lles yn cael eu cefnogi'n gymharol dda, gyda chynlluniau i ddatblygu'r casgliad iechyd a lles ymhellach, a gweithio tuag at statws Gwasanaeth Dementia Gyfeillgar. Ar y cyfan cynhaliwyd lefelau'r mynychwyr mewn sesiynau hyfforddi defnyddwyr a drefnwyd ymlaen llaw, ac ymddengys bod y nifer sy'n cael cymorth trwy hyfforddiant anffurfiol hefyd yn debyg i 2016-17, gyda'r perfformiad ar lefel y canolrif ar gyfer Cymru gyfan neu oddi tano.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Ceredigion yn parhau i gyrraedd y targed o ran mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, er gwaethaf natur wledig y sir, ac mae pob llyfrgell sefydlog sydd ar agor am 10 awr neu ragor yr wythnos yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr sydd â gofynion arbennig. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau yn amlwg wedi codi ers 2016-17, er bod y cyfartaledd fesul pen yn parhau i fod yn un o'r isaf yng Nghymru. Mae llawer o ffocws y gwaith hwn hefyd wedi bod ar weithgareddau sydd wedi'u hanelu at blant, a chydabyddir bod angen gwneud mwy i wella'r cynnig i oedolion yn y maes hwn. Mae nifer yr ymwelwyr hefyd wedi cynyddu, yn ogystal ag aelodaeth llyfrgell a nifer y benthyccwyr gweithredol. Mae hyn yn adlewyrchu llwyddiant yr ymgyrch

aelodaeth a gynhaliwyd ym mis Hydref 2017, a oedd hefyd wedi effeithio'n gadarnhaol ar fenthyciadau llyfrau am weddill y flwyddyn, gan ddechrau mynd i'r afael â'r cwmp cyffredinol yn y maes hwn. O gymharu, mae Ceredigion yn parhau i berfformio'n dda yn hyn o beth, gyda benthyciadau i oedolion yr ail uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Er bod y gyllideb deunyddiau wedi gostwng ymhellach yn 2017-18, cyflawnir y targed derbyniadau cyffredinol fesul pen y boblogaeth; priodolir hyn i brynu e-adnoddau sy'n cyfrif am 25% o'r holl eitemau a gaffaelwyd. Mae'r gwariant ar ddeunydd i blant hefyd wedi gostwng, unwaith y bydd y ffigyrau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth llyfrgell ysgol wedi'u diystyru. Fodd bynnag mae'r gwasanaeth yn parhau i berfformio'n dda mewn perthynas â darpariaeth yn y Gymraeg, gan gofnodi'r ail lefel uchaf o ran benthyciadau Cymraeg fesul pen y boblogaeth. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi gostwng ryw fymryn, ond mae defnydd mawr yn dal arnynt a'r ffigyrau defnydd yn hyn o bleth ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyrraedd y targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau – megis mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw ceisiadau cyn-cyhoeddi (a amcangyfrifir yn 10% o'r cyfanswm), wedi cynnwys yn y datganiad blynyddol.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staff cyffredinol wedi gostwng ryw fymryn ac maent yn parhau i fod yn is na'r targed a roddwyd, ond mae'r awdurdod yn parhau i fodloni'r gofynion mewn perthynas â staff cymwysedig, yn un o saith awdurdod yn unig i wneud hynny. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth wedi cyrraedd y targed ar gyfer amser a roddir i ddatblygiad proffesiynol, er y nodir bod hyn yn bennaf oherwydd bod mwy o hyfforddiant ar-lein ar gael. Dechreuodd y gwasanaeth hefyd ddefnyddio gwirfoddolwyr yn ystod 2017-18, a phob un ohonynt yn cael hyfforddiant a chymorth parhaus.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw ar y gwasanaeth wedi gostwng hyd at 25% ers 2016-17, gostyngiad amlwg sy'n bennaf oherwydd gostyngiad mewn costau gweithredol y tu hwnt i'r cyllidebau staffio ac adnoddau. Mae'r gwariant refeniw fesul pen y boblogaeth bellach yn is na'r canolrif i Gymru. Mae cyfanswm yr oriau agor wedi cynyddu ychydig, a'r gwasanaeth yn cofnodi un o'r cyfartaleddau uchaf fesul pen y boblogaeth. Mae salwch staff a phroblemau mecanyddol wedi effeithio ar ddarparu gwasanaeth y llyfrgell deithiol, a Cheredigion sydd wedi cofnodi'r gyfran uchaf o arosfannau'r llyfrgell deithiol a fethwyd.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Adroddodd Ceredigion sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; yn cefnogi dysgu gydol oes; yn darparu mynediad i adnoddau ar gyfer pobl sy'n chwilio am waith; yn darparu gwasanaethau i gefnogi iechyd a lles; a bod ganddo ymrwymiad cryf i'r ddarpariaeth Gymraeg.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, adroddodd Ceredigion fod adolygiad llawn o strategaethau a pholisïau ar y gweill, a hwnnw'n darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu yn ystod y pum

mlynedd nesaf. Amlinellir hefyd y gwaith i wella'r wefan a darparu mynediad trwy Facebook, fel rhan o ffocws newydd ar farchnata a gwerthu'r gwasanaeth gyda'r nod o gynyddu lefelau defnydd. Mae ymrwymiad hefyd i gynnal arolygon defnyddwyr i fod yn sail i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol; gan sicrhau bod y gofynion ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr yn cael eu bodloni yn y fframwaith hwn. Bydd y gwasanaeth yn ymuno â'r system rheoli llyfrgell (LMS) ar gyfer Cymru gyfan yn 2019, ac mae'n parhau i ddatblygu ei bartneriaeth gyda'r gwasanaeth a redir gan wirfoddolwyr yn Llandysul. Nid yw'r rhagolygon o ran cyllid yn y dyfodol yn glir o'r naratif a gyflwynwyd, ond mewn manau eraill nodir y gallai'r gofyniad i wneud arbedion effeithio ar gyflawni hawliau craidd 4 a 6 yn y flwyddyn ariannol nesaf.

6 Casgliad

Mae rhai meysydd wedi gwella yng ngwasanaeth llyfrgell Ceredigion yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, er y gostyngiad yng nghyfanswm ei gyllideb refeniw. Cafwyd datblygiad amlwg mewn meysydd allweddol, a bydd yr adolygiad arfaethedig ar strategaeth a pholisi yn gallu adeiladu ar y datblygiadau hyn; bydd cynlluniau i gwblhau ei arolygon defnyddwyr yn ystod gweddill y fframwaith yn rhoi tystiolaeth ychwanegol i'r broses hon. Fodd bynnag, mae effaith cyfyngiadau ariannol a staffio yn dal i fod yn amlwg, ac mae yna eisoes arwyddion y gallai'r gofyniad i gael arbedion ychwanegol effeithio ar berfformiad yn y dyfodol, ac effeithio ar allu'r gwasanaeth i atgyfnerthu ac adeiladu ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni yn 2017-18.